

Cofnodion Cyfarfod Mehefin 9fed, 2022

Presennol: Y Maer Rhys Evans, Y Dirprwy Faer Eifion Roberts, Jacqueline Allen, Dilys Evans, Fiona Hopkins, Eluned Jones, Clare Mackintosh, Moira Mai, Sion McGuinness, Tony Parry, Eric Williams, John C Williams

Hefyd yn bresennol: Dilwyn Morgan (*Cyngor Gwynedd*), Lis Puw (*Clerc*).

1. **Croesawyd** pawb gan y Maer, a estynnodd groeso arbennig i Moira Mai i'w chyfarfod cyntaf fel Cynghorydd.

Llongyfarchodd y timau ieuencid rygbi, pêl droed a hoci'r ardal ar eu llwyddiannau diweddar. Cytunwyd i'r Clerc anfon llongyfarchiadau'r Cyngor atynt i gyd. Llongyfarchodd hefyd a dymunodd yn dda i Glwb Pêl droed Y Bala ar yr ymgyrch yn Ewrop. Roedd yn falch o weld fod gornest Cwpan Bragdy wedi ail gychwyn, achlysur poblogaidd iawn drwy Benllyn. Dathlodd Rheilffordd Llyn Tegid pen-blwydd hanner cant yn ddiweddar a dymunodd yn dda iddynt at y cant. Yn ychwanegol at hyn, cyfeiriodd at lwyddiant *Welsh in the West End* yn cyrraedd y rownd gynderfynol ar y rhaglen Britain's Got Talent, gyda dau o'r aelodau wedi derbyn addysg yn Ysgol Godre'r Berwyn, ac wedi elwa o'r Urdd a Mudiad y Ffermwyr Ifanc. Cytunwyd i anfon llongyfarchiadau'r Cyngor atynt hwythau.

Roedd yn falch o gael y cyfle i annog digwyddiadau yn y dref, megis y Plains Rali. Diolchodd i Tony Parry a Chyngor Gwynedd am eu cymorth wrth iddo ar fyr rybudd geisio gwneud trefniadau ar eu rhan, gan i'w trefniadau gwreiddiol fethu. Roeddent mor ddiolchgar am y croeso a gafwyd fel eu bod wedi penderfynu dychwelyd i'r Bala'r flwyddyn nesaf. Cafodd y fraint o godi'r faner i gychwyn y ceir ar eu taith.

Roedd yn fraint hefyd cael agor yn swyddogol Swyddfa Gyfreithiol Agri Advisor yn y dref. Merch leol yw'r cydberchennog ac fe fydd yn ddarpariaeth werthfawr i'r sector amaethyddol.

Ym mis Ebrill mynychodd ef, y Cynghorydd Dilwyn Morgan a'r Clerc gyfarfod gyda'r Rhingyll Lleol pryd y cafwyd cyfle i drafod patrwm gwaith yr Heddlu a phroblemau lleol. Dangosodd taflen ar gyfer cysylltu gyda'r Heddlu.

Nid oedd ymddiheuriadau.

2. **Buddiant:** Derbyniwyd datganiadau buddiant :

- i. Eluned Jones ym mater cynllunio 8a (perchennog yr eiddo dan sylw – gadawodd hi a'r Cynghorydd Dilwyn Morgan y siambr yn ystod y drafodaeth)

- ii. Eifion Roberts ym mater 13i (Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Godre'r Berwyn).

3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Ebrill 7fed 2022 (cyfarfod olaf y cyn-gyngor a gynhaliwyd o dan derfynau cyfnod cyn-etholiad).

4. Materion y Clerc:

- i. 7.4.22 Cofnod10: Dathlu 150 mlwyddiant Cyfrinfa'r Bala - rhoddwyd manylion y dymuniad am arwyddion **Croeso i'r Bala Welcome** i Gyngor Gwynedd a NMWTRA, ynghyd a manylion gwefannau arwyddion i'r Grand Master.
- ii. 7.4.22 Cofnod 10: Problemau yn nhoiledau'r Grin – adroddodd y Clerc y bu problem strwythurol a diolchodd i'r Swyddog yng Nghyngor Gwynedd am ymateb mor effeithiol.
- iii. Hyfforddiant Un Llais Cymru: Anogwyd yr aelodau newydd i roi gwybod i'r Clerc pa bryd yr hoffent gofrestru ar un o sesiynau hyfforddiant "Y Cynghorydd Newydd" sydd yn cael eu cynnig gan Un Llais Cymru ym Mehefin 2022. (Y Cyngor sydd yn talu am yr hyfforddiant.)
- iv. Deddf Llywodraeth Leol 2021 (*Mater a godwyd gan aelod o'r cyhoedd yn y cyfarfod blynyddol*): Nid yw Cyngor Tref Y Bala yn gymwys ar gyfer y cymhwystera Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol. Mae tua 730 o Gynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru ac - yn ôl Un Llais Cymru - mae gan tua 47 o glercod y cymhwyster CiLCA, sef y cymhwyster angenrheidiol i Gyngor sy'n dymuno bod yn rhan o'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol.
- v. Ymweliad â gorsaf yr heddlu 29/4/22 – gweler adroddiad y Maer uchod.

5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd.

Mynychodd gyfarfod o'r Grŵp Busnes i drafod tacluso'r dref. Yn y cyfarfod hwnnw cytunwyd i anfon llythyr at bob busnes yn y dref i'w hyrwyddo i fod yn gyfrifol am daclusrwydd yr ardal o flaen eu busnes. Cytunwyd i gynnal cystadleuaeth Yr Adeilad Taclusaf.

Cynhaliodd gyfarfod gyda Peter Simpson, Rheolwr Gwasanaethau Stryd Cyngor Gwynedd, a Gwyn Siôn Ifan, Cadeirydd y Grŵp Busnes. Fe wnaethant gerdded y Stryd Fawr gan nodi'r gwaith uchafu sydd angen ei wneud. Bydd yr adroddiad hwn yn gefn i'r Tîm Tacluso Ardal (ffrwyth buddsoddiad o £1.5 miliwn gan Gyngor Gwynedd). Mae diffyg eglurdeb am gyfrifoldebau, gan fod Y Stryd Fawr hefyd yn Gefnffordd o dan awdurdod NMWTRA. Y tebygolrwydd yw mai Cyngor Tref Y Bala sy'n gyfrifol am y meinciau a'r mynegbyst.

Mae'r Cynghorydd Dilwyn Morgan o ganlyniad i hyn wedi trefnu cyfarfod gyda Merfyn Morris o NMWTRA ar 13/6/22 i drafod cynllun tymor hir ymdrin â'r coed ar y Stryd Fawr a chyfrifoldebau gwaith ar y stryd.

Yn dilyn mater a godwyd yn yr hen Gyngor gan John Caradog Williams chan ieuencid lleol, mae Dilwyn Morgan wedi trefnu cyfarfod gyda Siôn Eifion, swyddog ADRA, i drafod gofod chwarae yn ardal Blaenddol a Chysgod y Coleg.

Mae'r Cynghorydd Dilwyn Morgan wedi cychwyn y broses o sefydlu cangen leol "Caru Cymru" a fydd yn tacluso a phlannu. Bydd yn cynnwys disgyblion Ysgol Godre'r Berwyn ac yn derbyn cefnogaeth Cyngor Gwynedd a Cadw Cymru'n Daclus. Bydd yswiriant ar gyfer gwirfoddolwyr yn cael ei ddarparu gan Gyngor Gwynedd ynghyd ag offer.

Mae'n parhau i geisio codi ymwybyddiaeth am ddiogelwch ar y ffordd, yn benodol yr angen am derfyn 20mya wrth Ysgol Godre'r Berwyn. Oherwydd ymateb gwan gan Lywodraeth Cymru i gwestiynau Mabon ap Gwynfor, daeth rhieni at ei gilydd i brynu arwyddion i geisio arafu'r drafnidiaeth. Bu'r PCSO Lona Davenport yn llwyddiannus i gael dau arwydd gan yr Heddlu. Hi hefyd a fu'n allweddol i gael cyllid i gychwyn clwb garddio ar ôl ysgol i'r plant ieuengaf yn yr ysgol. Bydd ymgyrch i arafu ceir ar allt y Coleg ac mae disgyblion yn dylunio arwyddion i'w rhoi mewn mannau pwrpasol yn y dref.

Trafodwyd gwaith BAC Cymru gyda Phennaeth Cynorthwyol Ffes 3 Ysgol Godre'r Berwyn a'r cynlluniau ar gyfer yr ardd gymunedol. Mae un grŵp yn gweithio ar fynediad i bawb. Bydd Dilwyn Morgan yn gweithio'n agos gyda'r ail grŵp a fydd yn canolbwyntio ar wella golwg canol y dref ac ymgynghori gyda thrigolion ar faterion megis meinciau a murluniau; bydd grantiau ar gael ar gyfer hyn.

Wrth ddiolch i'r Cynghorydd am ei waith a'i adroddiad, cynigodd y Maer i roi cyfraniad i'r grŵp a fydd yn gweithio yn yr ardd gymunedol. Diolchodd i'r bobl ifanc am fynegi balchder yn eu hardal.

6. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Derbyniwyd adroddiad Tony Parry a soniodd fel y bu ef a Jacqui Allen yn bresennol yn agoriad y llwybr o flaen y ganolfan. Y cam nesaf yw gwaith ar y llwybr o flaen y Clwb Rygbi. E-bostiodd y Newyddlen at y Cynghorwyr.
7. **Is-bwyllgorau:** Cylch gorchwyl a threfnu cyfarfodydd – bydd y Clerc yn anfon y rhain allan a bydd aelodau'r is-bwyllgorau yn trefnu'r cyfarfodydd ymhlith ei gilydd.
8. **Materion Cynllunio:** Ystyried cymeradwyo:
 - (a) **NP5/ 53/594** Adeiladu estyniad cefn a ports newydd Awel Y Llyn, 11 Trem Y Ffridd, Y Bala. LL23 7DG CYMERADWYWYD
 - (b) **NP5/53/593** Adeiladu estyniad cefn a blaen 21 Cae Gadlas, Bala. LL23 7AT CYMERADWYWYD

9. Materion Cyllid:

- i. Adroddiad yr Archwilydd Mewnol am y flwyddyn 2021-22 - dim ond drafft oedd wedi dod i law. Cytunwyd i ohirio'r mater tan gyfarfod Gorffennaf.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am daliadau i Gynghorwyr – mater oedd ar Agenda'r Cyfarfod Blynyddol yn wreiddiol. Cytunwyd fel a ganlyn:
 - i. Cytunodd y Cyngor i beidio â mabwysiadu trefn tâl presenoldeb.
 - ii. Cytunodd y Cyngor i dalu costau o fewn y canllawiau os ar fusnes awdurdodedig y Cyngor.
 - iii. Lwfans Cynghorwyr (£150). Cytunwyd i dalu hwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.
 - a. *Nodwyd fod rhaid i'r Cyngor gyhoeddi'n flynyddol pob taliad a wneir i Gynghorwyr unigol.*
 - b. *Nodwyd yr angen i'r sawl sy'n gwrthod y Lwfans Cynghorwyr ddatgan hynny yn ysgrifenedig wrth y Clerc.*
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf; cofnodwyd derbyn hanner y praesept sef £13,500, a'r ad-daliad TAW 2021-22 (£527.18)
- iv. Cytunwyd i wneud y taliadau sydd o dan y Cytundebau (Cyflog y Clerc; Glanhau Llochesi); cytunwyd i dalu Yswiriant Zurich (£317) ac am wasanaeth cyfrifo Hill & Roberts (£144). Nid oedd anfoneb cyfieithydd cyfarfod mis Mai wedi dod i law.

Nodwyd fod un lloches bws newydd ar y Stryd Fawr a bod 2 loches arall ar y ffordd. Mae'r rhain yn ddatblygiadau diweddar nad oedd yn bodoli pan luniwyd y Gyllideb, felly nid ydyw cost eu glanhau wedi ei gynnwys yng nghyllideb y Cyngor. Dywedodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan y byddai'n ceisio addewid am gyllid am gyfnod o lanhau.

Cytunwyd i drosglwyddo £800 i Gronfa'r Maer, fel sy'n arferol.

10. Gohebiaeth:

- i. Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth am Ymgynghoriad Teithio Llesol ac anogwyd pawb i ymateb.
- ii. Cytunwyd gydag enwebiad Richard Parry Hughes (Llannor) fel aelod cymunedol i Banel Safonau Cyngor Gwynedd.
- iii. E-bostiwyd llythyr oddi wrth Barc Cenedlaethol Eryri parthed Sefyllfa Cartrefi Modur.

- iv. Ymgynghoriad Swyddfa Awdit Cymru ar gydnherthedd cymunedol: gan mai dim ond un ymateb o bob Cyngor sydd ei angen, cytunodd y Maer i ymateb ar ran y Cyngor Tref.

11. Partneriaeth Penllyn: Adroddwyd na fu cyfarfod o'r grŵp hwn yn ddiweddar.

12. Ystyried cyhoeddusrwydd i waith y Cyngor (*Mater a godwyd gan aelod o'r cyhoedd yn y cyfarfod diwethaf*). Cafwyd trafodaeth yn cynnwys cost cynhyrchu a dosbarthu newyddlen, peryglon sylwadau dilornus neu bersonol ar y cyfryngau cymdeithasol, dychweliad Y Cyfnod; anawsterau gwahanol gyfryngau i gyrraedd gwahanol grwpiau o bobl. Mae'r Cyngor yn bodloni'r Ddeddf trwy roi Cofnodion ar wefan y Cyngor (ar ôl iddynt gael eu cadarnhau fel rhai cywir gan y Cyngor). Mae Crynodeb o ddrafft benderfyniadau yn cael eu rhoi ar y wefan yn dilyn pob cyfarfod. Cytunodd y Clerc i osod copi o'r Cofnodion (wedi eu cadarnhau) ar hysbysfwrdd y Cyngor tu allan i Ganolfan Henblas.

13. Materion lleol y Cynghorwyr Tref

- i. Adroddodd y Dirprwy Faer, Eifion Roberts, fod y Cyngor a Chorff Llywodraethol Ysgol Godre'r Berwyn wedi bod yn ymgyrchu am derfyn 20mya wrth Ysgol Godre'r Berwyn ers tair blynedd. Mae rhieni'r ysgol wedi ymuno yn yr ymgyrch ac wedi derbyn cefnogaeth Mabon ap Gwynfor (AS). Ymateb siomedig iawn a gafodd Mabon ap Gwynfor gan Weinidog Llywodraeth Cymru. Cytunodd y Cyngor i gefnogi'r ymgyrch gan ysgrifennu at Mabon ap Gwynfor gyda chopi i'r Gweinidog Lee Waters i alw am derfyn 20mya yn ardal Ysgol Godre'r Berwyn.
- ii. Dywedodd Eifion Roberts fod parcio ar gyfer ymweld â mynwent Llanycil wedi bod yn anodd iawn. Hon ydy'r fynwent leol ar gyfer trigolion Y Bala. Cytunwyd i ofyn i Gyngor Cymuned Llanycil a fyddai'n bosib holi am ddefnyddio maes parcio Byd Mary Jones.
- iii. Cododd Tony Parry mater ysbwriel picnic yn cael ei adael wrth y bin baw ci ar y llwybr wrth y Bont Fawr gan ddefnyddwyr maes parcio'r Grin. Dywedodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan y byddai'n holi Cyngor Gwynedd am fin arall o fewn y maes parcio.
- iv. Gwrychoedd angen sylw yn Rowen: dywedodd y Clerc y byddai'n anfon eleni eto i ofyn am docio'r gwrych er diogelwch trafndiaeth a cherddwyr.
- v. Derbyniwyd llythyr a lluniau gan aelod o'r cyhoedd yn tynnu sylw at chwyn a'r angen i dorri coed. Mae'r materion hyn mewn llaw (gweler Adroddiad y Cynghorydd Dilwyn Morgan).
- vi. Holodd Fiona Hopkins am y drefn o gofnodi ac ymateb i sylwadau gan etholwyr. Mae angen i Gynghorydd sy'n derbyn cwynion neu sylwadau sydd o fewn

cwmpawd cyfrifoldeb y Cyngor Tref anfon y materion hynny at y Clerc ar gyfer eu gosod ar Agenda'r cyfarfod nesaf (cyngorybala@outlook.com).

Os mai materion Cyngor Gwynedd ydynt, mae angen i'r materion cael eu hanfon at y Cynghorydd Dilwyn Morgan
cynghorydd.dilwynmorgan@gwynedd.llyw.cymru

Mae e-byst gwahanol adrannau Parc Cenedlaethol Eryri ar wefan y Parc.

Holodd y Maer a oedd y dysgwyr wedi gallu dilyn y cyfarfod gyda chymorth eu cyd-aelodau. Diolchodd iddynt am eu hymdrechion yn ystod y cyfarfod. Addawodd holi am hyn ym mhob cyfarfod, ac anogodd y Cynghorwyr i ofyn am eglurhad mewn unrhyw iaith. Dywedodd y Clerc fod gwersi Cymraeg yn cychwyn ym mis Medi yng Nghanolfan Henblas (pobl sy'n dechrau dysgu ar fore Mawrth, dysgwyr mwy hyderus ar fore Mercher).

Cytunodd yr aelodau i drefnu cyfarfodydd is-bwyllgorau ymysg ei gilydd - cyn cyfarfod Gorffennaf os yn bosib.

Dyddiad a lleoliad cyfarfod y Cyngor nesaf: 7/7/22, Canolfan Henblas am 7.00pm

Amser gorffen: 9.10pm